

**BARNWR CYSWLLT / DIRPRWY FARNWR CYSWLLT AR GYFER YR
IAITH GYMRAEG**

CYLCH GORCHWYL

Swyddogaeth y Barnwr Cyswllt ar gyfer yr Iaith Gymraeg yw cysylltu â barnwyr ar bob lefel, Ynadon, Clercod Ynadon a staff GLIEM ac eraill i sicrhau y darperir gwasanaethau'n llwyddiannus i'r rhai sy'n defnyddio'r llysoedd yng Nghymru yn yr Iaith Gymraeg, ac i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd.

Yn benodol, bydd y Barnwr Cyswllt yn gwneud y canlynol:

- sicrhau, ar ran y Barnwyr Llywyddol y rhoddir ar waith y Cyfarwyddiadau Ymarfer (1) Y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol Cyfnerthedig paragraffau 111.23.1 - 111.23.13 (Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr 8 Gorffennaf 2002 fel y'u diwygiwyd 22 Ionawr 2004), (2) yn ymwneud â defnyddio'r Iaith Gymraeg yn y Llysoedd Sifil yng Nghymru (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Maurice Kay a'r Anrhydeddus Mr Ustus Thomas 26 Ebrill 1999), (3) Cyfarwyddyd Atodol perthnasol i achosion lle y defnyddir yr Iaith Gymraeg ac sy'n tarddu o Ogledd Cymru (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Thomas a'r Anrhydeddus Mr Ustus Richards 28 Chwefror 2000) a (4) Cyfarwyddyd ar gyfer Rhestru achosion sifil lle y defnyddir yr Iaith Gymraeg ac sy'n tarddu o Ogledd Cymru (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Thomas a'r Anrhydeddus Mr Ustus Richards 31 Gorffennaf 2000).
- derbyn hysbysiad am unrhyw wrandawriad yn yr Uchel Lys, Llys y Goron neu Lys Sirol lle y bo un o'r rhai sy'n gysylltiedig yn dymuno defnyddio'r Iaith Gymraeg.
- goruchwyllo, ar ran y Barnwyr Llywyddol, y trefniadau ymarferol yn ymwneud â chynnal unrhyw wrandawriadau, neu roi tystiolaeth yn Gymraeg ym mhob Llys yng Nghymru; i sicrhau bod yr holl lysoedd yn ymarfer dull gweithredu cyson ac y cwrddir ag anghenion y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Iaith Gymraeg yn llysoedd Cymru.
- adolygu effeithlonrwydd ymdrin â materion gerbron yr holl lysoedd lle bo un neu fwy o'r rhai sy'n gysylltiedig yn dymuno defnyddio'r Iaith Gymraeg a gwneud argymhellion i'r Barnwyr Llywyddol a'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol ar unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i weithredu hawliau statudol a Chynllun Iaith Gymraeg GLIEM.
- derbyn copïau o unrhyw gwynion a wneir ynghylch defnyddio'r Iaith Gymraeg yn llysoedd Cymru a sicrhau, lle bo cyfiawnhad dros gwynion o'r fath, bod camau wedi'u cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion statudol ar gyfer defnyddio'r Iaith Gymraeg yn y llysoedd.

- cysylltu â GLIEM a'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (BAB) i drefnu hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys yr Ynadaeth) gan adolygu anghenion hyfforddi'r farnwriaeth a'r ynadaeth o ran cynnal achosion yn yr Iaith Gymraeg a chefnogi cyrsiau eiriolaeth a chysiau hyfforddi eraill yn ymwneud â defnyddio'r Iaith Gymraeg yn y llysoedd.
- cysylltu â GLIEM i drefnu a chyflwyno seminarau hyfforddi ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg a chymeradwyo'r rhai sy'n gymwys i'w cynnwys ar restr cyfieithwyr GLIEM.
- bod yn aelod o Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar y Gymraeg a chysylltu ag eraill sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo datblygu gwasanaethau cyfiawnder yn yr Iaith Gymraeg.

Mai 2006